Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Heddlu a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Cydweithio er mwyn cyflawni ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol

## Adroddiad Cynnydd Ebrill 2023



Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan yr Heddlu a SCHTh yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu ag aelodau o'n cyhoedd, a'n swyddogion a'n staff, cytunwyd ar yr amcanion canlynol fel y blaenoriaethau ar gyfer 2020-2024.

1. Cynyddu amrywiaeth ein gweithluoedd fel ein bod ni wir yn cynrychioli'n cymunedau.
2. Sicrhau bod ein gweithwyr amrywiol yn cael eu trin yn deg a chyfiawn ar ôl cael eu cyflogi.
3. Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y diben, a bod gan ein holl gymunedau lais mewn plismona.
4. Sicrhau ein bod ni'n adnabod materion sy'n ymwneud â chydlyniad cymunedol ac yn ymateb iddynt yn effeithiol, gyda golwg ar leihau nifer y troseddau a digwyddiadau casineb sy'n cael eu cyflawni yn ein hardal Heddlu.

Ceir esboniad llawn o'r modd y gwnaethom adnabod yr amcanion cydraddoldeb hyn, ynghyd â'r camau gweithredu yr ydym yn bwriadu ymgymryd â nhw, yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

Bydd yr amcanion yn gyrru cynnydd yn erbyn ein cydymffurfiaeth gyffredinol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth teg a chyfartal i'n cymunedau, yn ogystal â'n helpu i ddod yn gyflogwyr o ddewis ar gyfer ein gweithluoedd cyfunol.

Bydd yr adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r ffrydiau gwaith amrywiol sydd wedi bod ar waith gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn datblygu yn erbyn ein hamcanion.



| Rhif yr Amcan | Teitl Amcan | Sut? | Monitro | Diweddariad | Diweddariad 2022 | Diweddariad 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynyddu amrywiaeth ein gweithluoedd fel ein bod ni wir yn cynrychioli'n cymunedau. | • Adolygu a gwerthuso cynnydd yn erbyn ein Strategaeth: "Cynllun ar gyfer sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu";<br>• Annog ein cymunedau amrywiol yn weithredol i sicrhau ein bod ni'n adnabod ac yn dileu rhwystrau rhag ymuno â'r Heddlu a SCHTh;<br>• Adolygu isadeiledd a phrosesau gweithio yn systematig er mwyn sicrhau ein bod ni'n cynyddu cyfleoedd i gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli weithio i ni; ac<br>• Annog ein gweithlu i ddatgelu data amrywiaeth personol â'r sefydliad i'n galluogi i asesu cynrychiolaeth yn gywir. | - Byddwn ni'n adolygu staff a swyddogion sy'n cael eu derbyn o dro i dro er mwyn nodi unrhyw anghyfartaledd o ran cynrychiolaeth o fewn y broses recriwtio;<br>- Byddwn ni'n monitro llwyddiant yr ymgyrchoedd recriwtio er mwyn sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â'n cymunedau amrywiol yn effeithio; a<br>- Byddwn ni'n adolygu'r data amrywiaeth personol rydyn ni'n casglu mewn perthynas â'n staff a'n swyddogion o dro i dro er mwyn nodi anghyfartaledd, yn ogystal ag amharodrwydd i ddatgelu. | **Gweithgor Gweithlu Cynrychioladol** - Yn 2019, crëwyd y Grwp Gweithlu Cynrychioladol er mwyn sicrhau bod yr heddlu wir yn cynrychioli ei gymunedau ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddenu ymgeiswyr amrywiol. Croesewir syniadau arloesol fel ein bod ni'n medru cysylltu a chyfathrebu â chymunedau llai yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr Rhwydweithiau Cymorth Staff Heddlu, Gwasanaethau Pobl, Cyfathrebu Corfforaethol a chynrychiolwyr o'r adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a greodd y grŵp hwn gan y teimlwyd bod bylchau yn strategaeth recriwtio'r heddlu. Nid yw'r grŵp hwn wedi cyfarfod ers cryn amser, fodd bynnag, mewn ymgynghoriad ag AD, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi ailgychwyn. Cynhelir Gweithgor Gweithlu Cynrychioladol bob mis | **Recriwtio a Gweithredu Cadarnhaol.** Mae'r ffocws presennol ar gynyddu ceisiadau gan Leiafrifoedd Ethnig, Benywod a Siaradwyr Cymraeg - er mwyn gwneud hyn, yr ydym wedi gwneud y canlynol:<br>• Agorodd recriwtio Swyddogion Heddlu ym mis Ionawr 2022. Yr ydym hefyd yn hysbysebu ar 16 Mawrth gan fod angen inni gynyddu ein cronfa ymgeiswyr.<br>• Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer ymgyfarwyddo â'r broses recriwtio, a byddant yn parhau i gael eu cynnal cyn agor ymgyrch Swyddogion Heddlu.<br>• Er mwyn hysbysebu'r digwyddiadau hyn, yr ydym yn gweithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r wefan.<br>• Rhannwyd fideos addysgiadol o swyddogion heddlu benywaidd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, a oedd hefyd yn hysbysebu rolau.<br>• Yr ydym yn ymgysylltu â | **Recriwtio a Gweithredu Cadarnhaol**<br>Mae'r pwyslais presennol ar gynyddu ceisiadau gan Leiafrifoedd Ethnig, Benywod a Siaradwyr Cymraeg – er mwyn gwneud hyn, yr ydym wedi cyflawni'r canlynol:<br>• Agorodd recriwtio Swyddogion Heddlu ym mis Ionawr 2023, a byddwn ni hefyd yn agor ymgyrch arall ym mis Mehefin 2023.<br>• Bydd recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol yn agor ym mis Ebrill 2023.<br>• Bydd recriwtio SCCH yn agor ym mis Ebrill 2023.<br>• Mae digwyddiadau ar gyfer ymgyfarwyddo â'r broses recriwtio wedi'u cynnal, a byddant yn parhau i gael eu cynnal cyn agor ymgyrchoedd Swyddogion Heddlu/Cwnstabliaid Gwirfoddol a SCCH.<br>• Er mwyn hysbysebu'r digwyddiadau hyn, yr ydym yn gweithio gyda'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Arolygydd Stuart Bell ac sy'n bwydo i mewn i'r GCA, sydd, yn y pen draw, yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Pobl.<br><br>Rhan o waith y grŵp yw adolygu data recriwtio a ddarperir gan AD, gan nodi unrhyw wahaniaeth a mynd i'r afael ag unrhyw faterion.<br><br>Bydd busnes y grŵp yn cael ei hysbysu'n bennaf, a bydd ei gyfarfodydd yn cael eu gyrru gan y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol a'r cynllun cyflenwi tanategol.<br><br>**Cynrychiolaeth Lleiafrifoedd Ethnig**<br><br>- Mae'r heddlu wrthi'n gweithio i gynyddu ei gynrychiolaeth o Leiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys ymgysylltu â phrifysgolion lleol i dynnu sylw eu myfyrwyr at y cyfleoedd gyrfa o fewn y gwasanaeth heddlu. Cynhaliwyd sesiynau holi ac ateb ym mis Hydref 2020 rhwng yr heddlu a myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant i drafod plismona yn Nyfed-Powys, rhwystrau canfyddedig a chyfleoedd i ymuno. Mae hyn yn caniatáu 3 mis i weithredu rhai | SCYH fel eu bod nhw'n medru hysbysebu yn eu hardaloedd â golwg ar gynyddu ceisiadau gan yr uchod.<br>• Yr ydym yn ymgysylltu â'n canolfannau aml-ddiwylliant lleol a mosgiau lleol hefyd.<br><br>• Yr ydym hefyd yn defnyddio'r Rhwydweithiau Cymorth Staff a'r Prifysgolion/Colegau lleol.<br>• Trefnwyd gweithgor newydd i gynorthwyo â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr heddlu.<br>• Mae Canolfan Asesu a Gweithdai Cyfweliad ar gael ar gyfer pob ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol.<br>• Mae banc talent yn llwyfan lle bydd y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn diweddaru'r unigolyn am y swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu'n wythnosol os bydd ymgeisydd yn gofyn am Gymorth Gweithredu Cadarnhaol ac nid yw ei gais ar gyfer swydd wag yn llwyddiannus.<br><br>**Atgoffa am Safonau'r Gymraeg**<br>Roedd angen ail-lansio Safonau'r Gymraeg gan | a'r wefan/Indeed/Linked in.<br>• Yr ydym yn ymgysylltu â'r swyddogion Tîm Plismona Bro/Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol yr Heddlu fel eu bod nhw'n medru hysbysebu yn eu hardaloedd, â golwg ar gynyddu ceisiadau gan yr uchod.<br>• Yr ydym yn ymgysylltu â'n canolfannau aml-ddiwylliant lleol a mosgiau lleol hefyd.<br>• Yr ydym hefyd yn defnyddio'r Rhwydweithiau Cymorth Staff a'r Colegau/Prifysgolion lleol.<br>• Ymwelwyd â nifer o ffeiriau gyrfa a drefnwyd yn ein hardal heddlu gan ein Colegau a'n Prifysgolion lleol.<br>• Mae Gweithdai Cyfweliad a Chanolfan Asesu ar gael i bob ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol.<br>• Mae digwyddiadau ymgyfarwyddo â gyrfa yn cael eu trefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2023, gyda disgyblion o ysgolion ledled ein hardal heddlu'n ymweld â Phencadlys yr Heddlu, Aberystwyth neu orsaf ym Mhowys. Yr ydym wedi bod yn defnyddio |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | argymhellion cyn i recriwtio agor ym mis Ionawr 2021.<br><br>Mae'r myfyrwyr yn ymgymryd â chwrs academaidd 'sgiliau yn y gweithle' - model rheoli prosiect 20 credyd. Mae rhan o'u cwrs yn cynnwys ymgymryd â phrosiect ymchwil gyda'r gymuned Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn deall y canfyddiadau a allai fod ganddynt am ymuno â'r Heddlu.<br><br>Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn hysbysu strategaethau recriwtio HDP yn y dyfodol.<br><br>Y ddau brif thema a ddaeth i'r amlwg o'r holl sesiynau oedd bod diffyg gwybodaeth mewn perthynas â gyrfaoedd mewn Plismona a bod angen i'r Heddlu greu neges gadarnhaol er mwyn adennill ffydd ei gymunedau. O ganlyniad i'r sesiynau holi ac ateb, crëwyd rhestr o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol yr Heddlu. Bydd y strategaeth hon yn cwmpasu'r holl linynnau amrywiaeth, gan gynnwys y prif gamau perthnasol o'r | fod 4 blynedd wedi mynd heibio ers iddynt gael eu cyflwyno. Mae'n hollbwysig atgoffa staff a swyddogion am eu pwysigrwydd. Cychwynnodd yr ail-lansiad ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cynnig Gwersi Cymraeg ar gyfer pob lefel ag amryw o ddulliau dysgu;<br>• Ymgyrch fewnol â chyfathrebu rheolaidd, gan ganolbwyntio ar yr hanfodion ac effaith diffyg cydymffurfiaeth;<br>• Adolygiad ac ymchwil mewnol, holiaduron ac adborth i ddeall unrhyw rwystrau'n well ac annog syniadau newydd;<br>• Adolygu'r ffordd y mae'r gofyniad lefel 1 yn cael ei fonitro;<br>• Adolygu pob system er mwyn sicrhau eu bod nhw'n glynu wrth y safonau;<br>• Rhoi cyflwyniad gorfodol ar y Gymraeg i bob swyddog ac aelod staff â ffocws ar rolau rheng flaen a rhai sy'n wynebu'r cyhoedd, yn arbennig Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu;<br>• Adolygu'r holl hyfforddiant mewnol a gynigir;<br>• Sicrhau bod pob dechreuwr newydd yn derbyn cyflwyniad ar y Gymraeg pan mae'n | gorsaf Llandrindod, fodd bynnag, yn dilyn adborth gan rai o'r disgyblion mewn perthynas â'r pellter, yr ydym yn edrych ar ddefnyddio gorsaf heddlu'r Drenewydd. Mae hwn yn ddigwyddiad ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10 – 12 ar gyfer hyrwyddo'r swyddi sydd ar gael o fewn yr Heddlu. Digwyddiad 3 diwrnod ydyw sy'n cynnwys cyflwyniadau gwahanol gan amrywiol adrannau.<br>• Pan mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer rolau Staff Heddlu o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn gofyn am Gymorth Gweithredu Cadarnhaol drwy'r broses ymgeisio, bydd y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi cymorth/arweiniad.<br>• Mae'r Gweithgor Gweithlu Cynrychioladol dal yn cael ei gynnal bob dau fis er mwyn sicrhau bod yr heddlu wir yn cynrychioli ei gymunedau a'i fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i ddenu ymgeiswyr amrywiol. Croesewir syniadau arloesol fel ein bod ni'n medru cysylltu a chyfathrebu â'r cymunedau llai yn ardal Dyfed-Powys. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sesiynau holi ac ateb gwreiddiol. Yn y pen draw, bydd y strategaeth yn bwydo i mewn i'r Gweithgor Gweithlu Cynrychioladol, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.<br><br>Yr ydym hefyd wedi hysbysebu cynllun mentora o chwith o fewn yr heddlu, lle yr ydym yn gofyn i swyddogion a staff ein helpu i sicrhau ansawdd camau nesaf o gwmpas ein recriwtio.<br><br>Ddiwedd 2020, cynhaliom weithdy'n benodol ar gyfer aelodau o gymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a oedd â diddordeb mewn ymuno â'r Heddlu hefyd. Roedd y gweithdy'n<br><br>galluogi aelodau o'r gymuned i ofyn unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt am HDP fel cyflogwr a'r broses recriwtio.<br><br>Mynegiannau o ddiddordeb - Mae ffurflenni mynegiant o ddiddordeb ar gael yn awr ar holl derfynellau data symudol swyddogion, gan alluogi unigolion amrywiol i gofrestru eu diddordeb mewn ymuno â'r heddlu | dechrau ei swydd, nid ar ddiwrnodau ymgynefino oherwydd gall y rhain fod sawl mis ar ôl iddynt gychwyn;<br>• Sicrhau bod pawb sy'n dweud eu bod nhw'n lefel 3 neu uwch wrth wneud cais am swyddi'n cael eu defnyddio;<br>• Nodi cwrs Cymraeg penodol ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu (gan gynnwys helpu pobl i fod yn fwy hyderus wrth ysgrifennu yn Gymraeg). | • Cyfarfod Gweithredu Cadarnhaol Cymru Gyfan – cynhelir cyfarfodydd chwarterol rhwng heddluoedd Cymru, gan rannu arfer gorau.<br><br>**SCHTh Cynhadledd Gŵyl Ddewi CHTh**<br><br>Eleni, roedd y Gynhadledd yn canolbwyntio ar Blismona Drwy Gydsyniad: Mynd i'r afael â'r heriau a geir heddiw, sef ailadeiladu ffydd a hyder y cyhoedd i ddiogelu dyfodol cyfreithlon ar gyfer plismona. Un o'r siaradwyr gwadd oedd yr Athro Emmanuel Ogbonna o Brifysgol Caerdydd, sydd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ar eu Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth. Rhoddodd yr Athro Ogbonna drosolwg o Heriau Newid Diwylliannol o fewn Sefydliadau sy'n Hiliol yn Sefydliadol.<br><br>**Safonau'r Gymraeg**<br>Trefnodd SCHTh sesiwn loywi o ran Safonau'r Gymraeg ar gyfer ein holl aelodau staff, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u pwysigrwydd ac yn deall prosesau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Fforwm Cymru Gyfan - Mae Heddlu Dyfed-Powys yn mynd i bob cyfarfod Cymru Gyfan er mwyn rhannu arfer gorau gyda Heddluoedd eraill Cymru i ddysgu oddi wrth ei gilydd<br><br>**Gweithdai Recriwtio** - Cynhaliwyd gweithdai er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr ag unrhyw ymholiadau a allai fod ganddynt mewn perthynas â'r broses recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo â'r cais, y ganolfan asesu ac ymholiadau ynglŷn â'r cyfweliad cyn ymgyrch Ionawr 2021.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae ein hadran Gwasanaethau Pobl hefyd wedi bod yn nodi a chefnogi ymgeiswyr sydd wedi gofyn am Weithredu Cadarnhaol ar gyfer y swyddi Staff Heddlu gwag.<br><br>**Polisi Traws** - Mae Polisi Traws newydd wedi ei greu. Mae'n cynnwys polisi penodol ar gyfer trawsnewid o fewn y gweithle a chanllawiau ar gyfer | | penodol y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau ein bod yn glynu wrth eu gofynion.<br><br>Mae SCHTh hefyd wedi sefydlu sesiynau *Clwb Clecs* ar gyfer staff. Cynhelir y sesiynau hyn bob pythefnos ac maen nhw'n rhoi cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau a'u hyder o ran y Gymraeg mewn amgylchedd anffurfiol. Drwy ein system gyfeillio, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn SCHTh wedi cytuno i gyfeillio â siaradwr Cymraeg sydd ddim yn rhugl er mwyn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn yr iaith.<br><br>Anogwyd staff i archwilio i hyfforddiant Gloywi Iaith hefyd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gweithwyr traws sy'n trawsnewid, rheolwyr pobl sy'n bwriadu trawsnewid, a rhestr dermau. Byddwn ni'n hyrwyddo'r polisi hwn ar ein gwefan allanol unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo yn y gobaith y bydd yn annog ymgeiswyr posibl yn y dyfodol.<br><br>**Cyrsiau Cymraeg** - Bu'n rhaid i'n cyrsiau Cymraeg ddod i ben am y tro oherwydd y pandemig presennol. Gan hynny, bu'n rhaid inni feddwl am ffyrdd eraill o sicrhau ein bod ni dal yn rhoi cyfleoedd i'n swyddogion a'n staff ddysgu'r iaith. O ganlyniad, mae ein cyrsiau ar-lein wedi'u hysbysebu drwy fewnrwyd yr heddlu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ni dal yn cynnig cyfleoedd. Yr ydym hefyd wedi ail-lansio ein cynllun mentora. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn medru helpu'r rhai sy'n dysgu'r iaith ac yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n gweithio gartref ar ben eu hunain i barhau i gyfathrebu â chydweithwyr o fewn yr heddlu. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Y Bwrdd Pobl - Rhoddodd AD ddiweddariad ym mhob un o’r cyfarfodydd Bwrdd Pobl, lle maent yn rhoi data ynghylch derbyniadau diweddar, gan ganolbwyntio’n benodol ar y nodwedd warchodedig.<br><br>**Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu** - Lansiodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ei Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn 2018. O ganlyniad i’r strategaeth, gwasgarwyd meysydd y mae angen eu gwella ymysg grwpiau gwahanol o fewn yr heddlu ac maen nhw’n cael eu llywodraethu gan y Grŵp Cofleidio Amrywiaeth<br><br>Yr ydym wedi’n dewis i ffurfio rhan o Adolygiad Cymheiriaid a gynhelir gan y Coleg Plismona ar ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Chynhwysiad. Mae'r adolygiad cymheiriaid yn canolbwyntio ar wahanol agweddau, ond un ohonynt yw'r ffordd yr ydym yn denu, cadw a datblygu ein staff.<br><br>**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC)**<br>Ceir hyd i wybodaeth DCSC bresennol yr heddlu ar wefan allanol yr Heddlu. Cyhoeddir y wybodaeth hon yn flynyddol, ac mae'n hollbwysig o ran sicrhau ein bod ni'n ymwybodol o wneuthuriad ein sefydliad. Cysylltwyd â'n gweithlu'n ddiweddar i'w hannog i ddatgan eu gwybodaeth amrywiaeth bersonol. Ar hyn o bryd, mae SCHTh yn cyhoeddi ffigurau amrywiaeth ei staff ar ei gwefan. Ar gyfer y flwyddyn 2021/22, bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn ymgysylltu â Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu er mwyn nodi unrhyw bosibiliadau ar gyfer adrodd ychwanegol ar y data hwn.<br><br>Adolygodd Pennaeth Staff SCHTh | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dderbyniadau staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n fodlon nad oes unrhyw wahaniaeth o ran cynrychiolaeth o fewn y broses recriwtio. | | |
| 2 | Sicrhau bod ein gweithwyr amrywiol yn cael eu trin yn deg a chyfiawn ar ôl cael eu cyflogi.. | • Parhau i wneud cynnydd yn erbyn 'Strategaeth ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol o ran Cadw a Datblygu' yr Heddlu;<br>• Adnabod a dileu rhwystrau rhag datblygu ar gyfer ein gweithlu amrywiol, gan edrych am arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat; a<br>• Sicrhau ein bod ni'n deall anghenion amrywiol ein gweithlu ac yn ymateb iddynt. | • Byddwn ni'n adolygu pob cyflwyniad Tegwch yn y Gwaith er mwyn nodi pa un ai a oes meysydd penodol y mae angen canolbwyntio arnynt;<br>• Byddwn ni'n adolygu ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau o flwyddyn i flwyddyn er mwyn nodi pa un ai a oes gostyngiad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ganlyniad i'r gwaith a wnaed er mwyn bodloni'r amcan hwn<br>• Byddwn ni'n monitro data gweithlu er mwyn nodi pa un ai a yw'n camau gweithredu'n cael effaith gadarnhaol ar gynrychiolaeth ai peidio; a<br>• Byddwn ni'n adolygu pob arolwg staff a gwblheir er mwyn deall pa un ai a oes | **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC)**<br>Mae gwybodaeth gyfredol DCSC yr heddlu ar gael i'w darllen ar wefan allanol yr Heddlu. Cyhoeddir y wybodaeth hon yn flynyddol ac mae'n hollbwysig ar gyfer sicrhau ein bod ni'n ymwybodol o'n gwneuthuriad sefydliadol. Nododd data Mawrth 2020 bod 326 o weithwyr wedi gwrthod datgan eu cyfeiriadedd rhywiol, bod 18 o weithwyr wedi gwrthod datgan anabledd, a bod 238 ddim eisiau datgelu eu crefydd. Mae angen inni nodi pam nad yw gweithwyr eisiau datgelu manylion o'r fath. Yn ddiweddar, cysylltwyd â'n gweithlu i ofyn iddynt ddatgan eu gwybodaeth amrywiaeth bersonol.<br>**Gweithgor Gweithlu Cynrychioladol** - Mae'r GGC yn goruchwylio set | **Gweithredu Cadarnhaol**<br>• Hysbysebwyd yr ymgyrch Yn Well Gyda'n Gilydd o fewn yr Heddlu. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cefnogi'r ymgyrch Yn Well Gyda'n Gilydd oherwydd mae'n ymgyrch genedlaethol gan Dîm Ymgodiad Heddlu Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae'r ymgyrch yn anelu i godi ymwybyddiaeth o fanteision gweithlu amrywiol ac esbonio pam y mae'r defnydd o Weithredu Cadarnhaol yn hollbwysig ar gyfer cyflawni hyn.<br>• Rhoddwyd cymorth Gweithredu Cadarnhaol i'r Broses Hyrwyddo Arolygwyr. Roedd ymgeiswyr a oedd yn gymwys ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol yn bresennol mewn grŵp hyfforddi/mentora. Yn dilyn y cyfweliad hwn, cynhaliwyd byrddau ffug. | **Gweithredu Cadarnhaol**<br>• Cynhaliwyd gweithdai cyn y Byrddau Dyrchafu Rhingylliaid er mwyn rhoi cymorth/arweiniad ar y broses – mae'r Uwch Reolwr – Recriwtio a Dethol a chynrychiolydd o'r adran Dysgu a Datblygu'n cynnal y sesiwn.<br>• Gan gynorthwyo ein hadrannau arbenigol (Uned Cefnogaeth Arfog) i gynyddu ein cynrychiolaeth fenywaidd, mae'r Uned Cefnogaeth Arfog yn trefnu ambell ddigwyddiad yn y rhanbarth er mwyn ennyn diddordeb a, gobeithio, mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau a wynebir gan recriwtiaid, yn arbennig y rhai hynny o grwpiau a dangynrychiolir. Mae'r un cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2023.<br>• Mae Prif Swyddogion hefyd yn adolygu Benywod mewn Rhengoedd Uwch – mae cynllun POP y Dirprwy |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gan ein staff a'n swyddogion ymdeimlad o berthyn ai peidio. | data sy'n amlinellu ethnigrwydd a rhywiau ar draws rhengoedd a graddau â'r bwriad penodol o leihau anghyfartaledd a sicrhau tegwch o ran cyfle ni waeth am nodweddion gwarchodedig.<br><br>Rhwydweithiau Cymorth Staff HDP (RhCS)<br><br>RhCS yr Heddlu yw:<br><br>Y Rhwydwaith Cefnogi Gallu<br><br>Y Gymdeithas Heddlu Cristnogol<br><br>Lleiafrifoedd Ethnig<br><br>Y Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywiol<br><br>LHDT+<br><br>Mae'r Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gweithio'n galed gyda phob Cadeirydd Rhwydwaith ar ymgyrch a fydd yn anelu i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth a ddarperir gan Rwydweithiau Cymorth Staff ac yn ceisio cynyddu ffigurau aelodaeth. Unwaith yr ydym yn hyderus bod ein holl<br><br>swyddogion a staff yn ymwybodol o'r | • Cynorthwyo ein hadrannau arbenigol (Uned Cefnogaeth Arfog) i gynyddu cynrychiolaeth fenywaidd.<br>• Mae Prif Swyddogion hefyd yn adolygu Menywod mewn Rhengoedd Uwch.<br><br>**Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau**<br><br>Derbyniwyd data ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Mae'r adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau'n cael ei ddiweddaru a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth.<br><br>**Mentora o Chwith**<br>Yr ydym wrthi'n treialu Cynllun Mentora o Chwith o fewn yr Heddlu. Nod y cynllun yw sicrhau bod Arweinwyr Uwch yn cael gwybod am unrhyw faterion ar y tir gan swyddogion a staff a sicrhau bod cymorth yn cael ei roi.<br><br>Mae gennym 7 pâr ar y cynllun peilot cychwynnol, sy'n amrywio o aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, Rhingylliaid Heddlu ac aelodau staff y tîm Prif Swyddogion. | Brif Gwnstabl yn ymwneud â Benywod mewn Rhengoedd Uwch.<br>• Mae cwestiwn cydsyniad wedi'i ychwanegu i'r cais recriwtio lle mae ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol yn cadarnhau ei fod yn hapus i'w fanylion gael eu rhannu â'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol os yw'n llwyddiannus yn y broses recriwtio. Yna, gall y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol gysylltu'r gweithiwr â'r Rhwydwaith Cymorth.<br>• Gofynnwyd am ddata ynglŷn â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a diweddariad gan bob arweinydd hefyd. Ar ôl derbyn y data, bydd yr adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau'n cael ei ddiweddaru a'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth.<br>• Hysbysebwyd y Cynllun Mentora o Chwith o fewn yr heddlu yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus. Nod y cynllun yw sicrhau bod Arweinwyr Uwch yn cael gwybod am unrhyw faterion ar y tir gan swyddogion a staff a gwneud yn siŵr bod cymorth yn cael ei ddarparu. Bydd y |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhwydweithiau, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â RhCS ar dudalen 'Ymuno â Ni' yr Heddlu.<br><br>**Aflonyddu Rhywiol o fewn y gweithle -** Ddiwedd 2019, cynhaliwyd gweithdai aflonyddu rhywiol gan yr heddlu a Chwarae Teg i weld pa un ai a oedd unrhyw weithgarwch aflonyddu rhywiol yn bresennol o fewn Heddlu Dyfed- Powys. O ganlyniad i'r gweithdai, rhoddwyd argymhellion i ni fel heddlu gan Chwarae Teg er mwyn lleihau gweithgarwch o'r fath. Mae Strategaeth Genedlaethol wedi'i chreu, fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Cofleidio Amrywiaeth, penderfynwyd creu ein gweithgor mewnol ein hun yn HDP er mwyn trafod gweithredu pellach sydd angen.<br><br>Mae cynllun gweithredu byr wedi'i greu hefyd, ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r gweithredoedd hynny a materion y mae angen eu gwella.<br><br>**Polisi Traws -** Mae Polisi Traws newydd | Cysylltom ag aelodau'r cynllun peilot presennol yn ddiweddar i'w gwahodd i rannu adborth â ni ynglŷn â'r broses hyd yn hyn. Ein bwriad yw casglu'r wybodaeth hon a rhoi unrhyw ddiwygiadau i'r broses ar waith, yn seiliedig ar eu hadborth.<br><br>Yr ydym yn bwriadu rhannu'r cynllun ledled yr heddlu wedyn, ac yn gobeithio defnyddio Ffilm Gwener i dynnu sylw ato. Byddwn hefyd yn creu tudalen fewnrwyd ar DPPi2 a fydd yn cynnwys:<br>- Gwybodaeth am y Cynllun;<br>- Canllawiau ar gyfer y mentor a'r mentai;<br>- Fideo gan aelodau presennol y cynllun, yn esbonio beth sy'n gysylltiedig ag ef a'i fanteision;<br>- Gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn fentor/mentai.<br><br>**Cyfeillion Rhwydwaith Cymorth Staff (RhCS)**<br><br>Ym mis Mehefin 2021, lansiom gynllun Cyfeillion RhCS yn fewnol. Mae ein | Mynegiannau o Ddiddordeb yn cael eu monitro gan y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol a'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Iaith.<br>• Hysbysebwyd rhaglen arweinyddiaeth *Police Now* yn fewnol drwy ein rhwydweithiau cymorth.<br>• Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydweithio â Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu Gogledd Cymru i ariannu gwasanaethau Dr Ranjt Manghnani o *Guru Leadership and Coaching* i gyflenwi Setiau Dysgu Gweithredu Proffesiynol i swyddogion a staff o leiafrifoedd ethnig. Ariannwyd dau le ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>• Rhaglen hyfforddi uchelgeisiol wedi'i llunio ar gyfer datblygiad menywod yw *Springboard*, sydd wedi ailgychwyn.<br><br>**Troseddau Casineb**<br>HDP yn Lansio cynllun 9 pwynt<br><br>Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2022, fe wnaethom ail-lansio ein cynllun 8 pwynt |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi ei greu. Mae'n cynnwys polisi penodol ar gyfer trawsnewid o fewn y gweithle a chanllawiau ar gyfer gweithwyr traws sy'n trawsnewid, rheolwyr pobl sy'n bwriadu trawsnewid, a rhestr dermau. Byddwn ni'n hyrwyddo'r polisi hwn ar ein gwefan allanol unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo yn y gobaith y bydd yn annog ymgeiswyr posibl yn y dyfodol.<br><br>**Llwyfan Hyfforddi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** - Mae'r adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gweithio gyda'r adran Dysgu a Datblygu er mwyn creu rhaglen amgylchedd dysgu rhithwir ar gyfer yr holl hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae hyn yn 'gatalog' o hyfforddiant sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y bôn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth megis y pwynt cyswllt sengl, cynulleidfa darged, dull cyflenwi ac ati.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau gyda heddluoedd eraill | cymdeithasau a'n rhwydweithiau cymorth staff yn chwarae rhan fawr mewn dod â phobl at ei gilydd – pa un ai a yw hynny ar gyfer sgwrs, cwrdd â phobl newydd, dylanwadu ar benderfyniadau, neu gael cyngor, arweiniad a chefnogaeth. Eu pwrpas yw gwneud Heddlu Dyfed-Powys yn le da i bawb weithio.<br><br>Mae dod yn Gyfaill yn golygu y bydd Arweinwyr Uwch yn medru mynd i gyfarfodydd a gynhelir gan y Rhwydwaith ei hun er mwyn clywed dros eu hun am unrhyw broblemau, pryderon neu arferion da a allai fod ganddynt. Bydd cyfeillion hefyd yn medru mynd i'r Grŵp Cofleidio Amrywiaeth, sef y cyfarfod strategol ar gyfer popeth sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ynghyd â'r Cadeirydd Rhwydwaith er mwyn dwysau mater penodol ar lefel strategol.<br><br>**Diwrnod Gwerthfawrogi Rhwydweithiau Cymorth Staff**<br>Mae gennym 5 | ar gyfer gweithwyr fel cynllun 9 pwynt, sy'n cynnwys sicrhau bod cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer y digwyddiadau a'r troseddau hynny sy'n gysylltiedig â chasineb.<br><br>*"Wrth i amrywiaeth ein gweithlu gynyddu, yn anffodus, mae achosion o gasineb tuag at ein staff hefyd yn cynyddu wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Ni ddylid dioddef y math hwn o ymddygiad. Bydd ein gweithwyr yn derbyn yr un gefnogaeth ddilynol â phawb arall, a bydd y troseddau hyn yn cael eu hymchwilio mor drylwyr a chadarn â throseddau eraill yn erbyn ein gweithlu."*<br><br>**HeForShe**<br>Yr ydym wedi penodi uwch swyddog i arwain ein hymateb i'r ymgyrch genedlaethol hon. Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi'r rhwydwaith Cydraddoldeb Rhywiol, y Prosiect Rhianta a fforymau Gweithlu Cynrychioladol fel uwch noddwr ac eiriolwr ar gyfer newid cadarnhaol. Ar hyn o bryd, Uwch-arolygydd yw arweinydd yr heddlu sy'n anelu i sicrhau bod nodau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymru er mwyn archwilio i'r syniad o gydweithio i greu rhai o'r pecynnau hyfforddi a awgrymwyd. Un o'n pecynnau arfaethedig yw cyflwyniad ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Yr ydym yn gobeithio creu fideos byr ar gyfer ein swyddogion a'n staff a fydd yn anelu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o grefyddau a diwylliannau gwahanol o fewn Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>**Y Broses Ddyrchafu**<br><br>- Mae digwyddiad dyrchafu penodol yn cael ei greu ar hyn o bryd lle y bydd cymorth ar gael i'r rhai sydd eisiau datblygu drwy'r sefydliad. Bydd y digwyddiad yn cynnwys siaradwyr ar draws yr heddlu sydd wedi bod trwy'r broses, cyflwyniad ar gyfer y Rhwydweithiau Staff Heddlu a gwybodaeth allweddol gan AD mewn perthynas â'r broses ei hun.<br><br>Cynllun Mentora o Chwith - Mae trafodaethau wedi'u cynnal am y cynllun a fydd yn cael eu rhannu'n 3 rhan. Bydd mapiau proses yn cael eu creu ar | Rhwydwaith Cymorth Staff yn yr Heddlu. Mae cadeiryddion y rhwydweithiau hyn yn gweithio llawn amser i HDP. Serch hynny, maen nhw dal yn llwyddo i ddod o hyd i'r amser i arwain y rhwydweithiau. Maen nhw'n rhoi llawer o ymdrech i mewn i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'u rhwydweithiau, mynd i gynadleddau a digwyddiadau, ac yn bwysicach na dim, yn rhoi cymorth i'n staff.<br><br>Credwn fod angen inni ddathlu'r Cadeiryddion a dangos iddynt faint yr ydym yn gwerthfawrogi eu gwaith gwirfoddol. Gan hynny, penderfynom drefnu Diwrnod Gwerthfawrogi i ddangos iddynt ein bod ni'n sylwi ar y gwaith maen nhw'n ei wneud ac yn ddiolchgar am eu holl ymdrechion.<br><br>Cynhaliwyd y diwrnod ar 14 Rhagfyr 2021, ac roedd yn cynnwys gweithdai arwain ac ymarferion adeiladu tîm amrywiol. | *HeForShe* yn cael eu hystyried ar lefel heddlu. Mae arweinydd yr heddlu'n cefnogi swyddogion a staff talentog i dderbyn cymorth a hyfforddiant tuag at eu nodau gyrfa, yn enwedig yn y cyfnod yn arwain at brosesau dyrchafu. Mae rhannu a hyrwyddo arfer da sy'n dod i'r amlwg yn fewnol/allanol gan y rhwydwaith *HeForShe* yn parhau. Mae enghreifftiau'n cynnwys fideo *'Nid yn fy heddlu i'* gan Heddlu Sussex, sy'n ymwneud â herio aflonyddu rhywiol yn y gweithle, sydd dal yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo diwylliant iach. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfer y 3.<br><br>Mae ymchwil wedi'i gynnal drwy brosiect Cydnabod ac Ymgysylltu, gan edrych ar yr elfennau canlynol:<br>• Ein Diwylliant Cydnabod Presennol: Trosolwg<br>• Llwyfannau a Digwyddiadau Cydnabod<br>• Pwy sy'n Darparu Cydnabyddiaeth Effeithiol?<br>• Cydnabod Eraill a Chyfrifoldeb Personol<br>• Amlder: Pa mor aml y dylid Cydnabod?<br>• Cymhelliannau<br>• Amgylcheddau: Cynrychioli ein Pobl ac Arddangos Llwyddiannau<br>• Cyflenwi ein Strategaeth:<br>Camau Gweithredu ar gyfer Gwella ein Harferion<br>a'n Diwylliant Cydnabod<br>• Gwerthuso: Sut fyddwn ni'n Meincnodi?<br><br>**Mae'r data a gasglwyd hyd yn hyn wedi egluro bod pobl yn teimlo'n gysylltiedig â'u timoedd yn gyffredinol,** | **Olwyn Weithredu LHDT+** Mae'r adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi bod yn gweithio gyda'r RhCS LHDT+ a'r Cyfaill LHDT+ i gyflawni'r camau gweithredu ar yr Olwyn Weithredu LHDT+. Mae nodi lle'r ydyn ni fel Heddlu yn erbyn y camau gweithredu o fewn yr olwyn yn sicrhau ein bod ni'n parhau i fod yn weithlu gwbl gynhwysol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **ond bod diffyg ymgysylltu sefydliadol.**<br><br>**SCHTh -** Mae Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad SCHTh wedi gofyn am ddata gan AD HDP, ac ar hyn o bryd, mae'n paratoi adroddiad dadansoddi i Dîm Gweithredol SCHTh ar gyfer Ebrill 2021. Bydd y Tîm Gweithredol yn argymell bod angen ystyried camau gweithredu o ganlyniad i unrhyw faterion y tynnir sylw atynt yn ar adroddiad dadansoddi. | | |
| 3 | Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y diben, a bod gan ein holl gymunedau lais mewn plismona. | • Datblygu strategaeth ymgysylltu effeithiol i'w defnyddio gan yr Heddlu a SCHTh, gan ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n briodol â'n cymunedau mwyaf amrywiol. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid megis grwpiau cymorth, eiriolwyr a gwasanaethau cyhoeddus eraill;<br>• Gweithredu strategaeth | • Byddwn ni'n monitro nifer y bobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw drwy gydol y flwyddyn, ynghyd â'u demograffeg, er mwyn sicrhau ein hunain ein bod yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phob cymuned;<br>• Byddwn ni'n hap samplu achosion o ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn deall sut mae'r ymgysylltiad hwnnw wedi effeithio'n gadarnhaol ar blismona, a sut mae hyn wedi'i gyfathrebu i'r | **Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol -** Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cwrdd bob chwarter ac yn rhoi cyngor amhrisiadwy ac argymhellion i'r heddlu cyn creu proses benodol neu ddod i benderfyniad. Enghraifft o hyn oedd eu hadborth mewn perthynas â chyflau poeri a'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl - maent yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r heddlu. Bydd gan bob cyfarfod yn y dyfodol eitem agenda safonol lle y bydd y grŵp yn medru adolygu cofnodion stopio a chwilio, gan sicrhau y rhoddir tegwch bob amser. | **Fideo Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol**<br><br>Yr ydym wrthi'n cwblhau Fideo Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a fydd ar gael i bob swyddog ac aelod staff ar draws Heddlu Dyfed-Powys. Nod y fideo yw rhoi cyfle i swyddogion a staff glywed dros eu hun gan bobl o amrediad o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol sydd â gwybodaeth a mewnwelediad i'r pethau y dylem wybod amdanynt, a'r pethau y dylem fod yn ymwybodol ohonynt wrth ryngweithio â phobl. | **Monitro Cwynion**<br><br>Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn casglu data ar gwynion ac yn ei ddefnyddio i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu a nodi unrhyw bryderon o gwmpas y gwasanaeth a ddarperir i'r gymuned. Defnyddir y data hwn yn aml i nodi unigolion, grwpiau neu gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn y system gwynion, gan dynnu sylw at angen ar gyfer codi ymwybyddiaeth.<br><br>Mae data'n cael ei fwydo yn ôl i randdeiliaid megis y Swyddfa Gartref, AHGTAEF, y Coleg Plismona a Swyddfa |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hyfforddi effeithiol mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn sicrhau bod gan ein staff a'n swyddogion y wybodaeth a'r sgiliau priodol ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau amrywiol;<br>• Gweithredu argymhelliad adolygiad SCHTh o Gyswllt Cyntaf y Cyhoedd â Heddlu Dyfed-Powys;<br>• Datblygu ein Hasesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod penderfynwyr yn ystyried y ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein cymunedau;<br>• Ymgysylltu'n barhaus â'n cymunedau amrywiol er mwyn adnabod rhwystrau rhag cael mynediad at gyfiawnder a | gymuned dan sylw<br>• Byddwn ni'n monitro cwynion sy'n ymwneud â chael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan yr Heddlu a SCHTh er mwyn adnabod unrhyw feysydd sy'n peri pryder; a Byddwn ni'n adnabod ac yn monitro unrhyw ddata sy'n dangos pwy sy'n cysylltu â'r Heddlu a SCHTh, e.e. defnyddio cynlluniau megis Pegasus a'r gwasanaeth negesu testun difrys. | Yn ddiweddar, mae'r adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi creu ymgyrch ymaelodi rithwir.<br><br>Defnyddiom ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynyddu aelodaeth ein GYA, gan sicrhau ein bod ni'n llwyr gynrychioladol o'n cymunedau.<br><br>**Adolygiad o'r Cynllun Hygyrchedd -** Yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Cofleidio Amrywiaeth, penderfynwyd cynnal adolygiad o'r cynlluniau hygyrchedd amrywiol y mae'r heddlu'n rhan honynt (Protocol Herbert, Pegasus, Mynediad Cymru ac ati).<br><br>Unwaith y byddwn ni wedi casglu'r holl wybodaeth, cyflwynir papur er ystyriaeth y GCA. Byddant yn adolygu'r cynlluniau yr ydym yn eu cefnogi (yna, cyflwynir y papur i'r Bwrdd Plismona ar gyfer cymeradwyaeth terfynol) ac yna bydd tudalen yn cael ei chreu ar DPPi2 a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y cynlluniau, dolenni i | Gallai'r rhain fod yn bethau bach, neu'n bethau mawr, ond os fyddai'n gwneud gwahaniaeth ac yn helpu i chwalu rhwystrau o ran cyfathrebu - mae'n rhywbeth y dylai ein swyddogion a'n staff wybod amdano.<br><br>Ysgrifennom at aelodau o'n cymunedau yn edrych am wirfoddolwyr parod a fyddai'n hapus i recordio darn o flaen camera yn siarad am eu diwylliant neu eu cefndir, a rhoi'r cyngor hwn i'n tîm fan hyn yn Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>**Canolfan Hygyrchedd** Crëwyd y Ganolfan Hygyrchedd i gefnogi swyddogion a staff sydd ag anabledd corfforol neu gudd, neu wrth ymdrin ag aelod o'r cyhoedd ag anabledd corfforol neu gudd.<br><br>Mae'r Ganolfan hon yn sicrhau bod holl aelodau Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw ac aelodau o'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod pawb ag anabledd yn cael ei drin yn deg ac yn derbyn yr un | Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae data hefyd yn cael ei ddefnyddio'n fewnol i wella a hybu perfformiad. Defnyddir gwybodaeth am gwynion sy'n ymwneud â'r defnydd o rym a stopio a chwilio lleiafrifoedd ethnig gan y Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu.<br><br>Mae gwaith helaeth wedi'i gyflawni gan yr Adran Safonau Proffesiynol, mewn perthynas â chwynion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, ac mae'r Adran Safonau Proffesiynol hefyd wedi ymgysylltu â sefydliadau partner er mwyn cyrraedd ac adnabod pobl, megis dioddefwyr cam-drin domestig neu drais ar sail rhyw, sy'n llai tebygol o ddod ymlaen i wneud cwyn.<br><br>**SCHTh**<br><br>**Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol**<br><br>Mae SCHTh yn cynnal diwrnodau ymgysylltu misol ar gyfer CHTh ac yn trefnu ei fod yn ymweld ag ardaloedd penodol yn ardal Dyfed-Powys i gwrdd â |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwybodaeth, ac ymateb iddynt; a<br>• Sicrhau bod ein gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a thystion yn addas ar gyfer y diben ac yn bodloni anghenion ein cymunedau amrywiol yn briodol. | | adnoddau ac ati, fel bod staff a swyddogion yn medru cael mynediad i'r wybodaeth yn hawdd.<br><br>Cyswllt Cychwynnol â'r Cyhoedd - Ym mis Medi 2019, cynhaliodd SCHTh adolygiad o Gysylltiad Cychwynnol y Cyhoedd â'r Heddlu. Ceisiodd yr adolygiad:<br>1. Asesu pa un ai a yw lefel disgwyliadau'r cyhoedd yn rhesymol o fewn cyd-destun gwahanol fathau o alw;<br>2. Darparu ciplun o gysylltiad cyhoeddus cychwynnol cyfredol â'r Heddlu ledled Dyfed-Powys;<br>3. Pennu pa un ai a yw dulliau cyswllt cyhoeddus a ddarperir gan Heddlu Dyfed- Powys (HDP) yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd;<br>4. Pennu pa un ai a yw HDP yn darparu gwasanaeth heddlu hygyrch yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Gwnaed nifer o argymhellion sydd wedi'u derbyn gan y Prif Gwnstabl. Maent wedi'u rhoddi i'r Grŵp Cofleidio Amrywiaeth.<br><br>Derbyniodd y CHTh ddiweddariad ar gynnydd y | lefel o wasanaeth a'r un cyfleoedd ledled yr ardal Heddlu.<br><br>Tynnir sylw at yr holl gynlluniau a mentrau yr ydym ni fel Heddlu'n eu cefnogi ac yn ymgysylltu â nhw yn y ganolfan, ynghyd â manylion ynglŷn â sut i'w defnyddio nhw, dolenni a chysylltiadau allweddol.<br><br>**Cynllun Blodyn Haul**<br><br>Mae'r Cynllun Blodyn Haul ar gyfer pobl sydd ag anabledd cudd. Mae gwisgo'r Blodyn Haul Anableddau Cudd yn dangos yn ddisylw i bobl o'ch cwmpas, gan gynnwys staff a chydweithwyr, bod anabledd nad yw'n amlwg gennych ac y gallai fod angen cefnogaeth ychwanegol, cymorth neu fwy o amser arnoch.<br><br>Anogir swyddogion a staff ag anabledd cudd i gymryd rhan yn y cynllun a gwisgo bathodyn. Does dim rhestr o anableddau cudd cymwys. Os oes gan rywun anabledd cudd ac mae'n teimlo y byddai'n elwa o wisgo cynnyrch Blodyn Haul Anableddau Cudd, caiff wneud hynny. | sefydliadau, elusennau a chynrychiolwyr cymuned amrywiol i roi cyfle iddynt fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.<br><br>**Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid**<br><br>Yn 2022, lansiodd SCHTh ymgyrch recriwtio er mwyn recriwtio aelodau ychwanegol i'r Fforwm Ieuenctid. Fel rhan o'r ymgyrch recriwtio, lansiom arolwg ieuenctid yn gofyn i bobl ifainc am eu barn a'u canfyddiad o blismona yn eu hardal nhw. Nododd ganfyddiadau'r arolwg dri maes blaenoriaeth i'r Fforwm Ieuenctid ganolbwyntio arnynt ar gyfer 2022/23; i) Cymorth Iechyd Meddwl ar gyfer dioddefwyr ifainc; ii) Gweithgareddau atal camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifainc; iii) Cymorth ar gyfer oedolion ifainc sy'n cyflawni troseddau lefel is, i adeiladu eu hyder a chael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth.<br><br>Mae gennym yn awr gyfanswm o 14 aelod o'r fforwm ieuenctid o gefndiroedd amrywiol sy'n cynrychioli pobl ifainc o bob cwr o'r ardal Heddlu. Yn |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Llu mewn cyfarfod o’r Bwrdd Plismona yn Ebrill 2021.<br><br>**SCHTh** - Mae SCHTh yn monitro pwy yr ydym yn ymgysylltu â nhw yn ystod y flwyddyn drwy’r system Correetracker. Fodd bynnag, nid yw’r system yn cipio demograffeg unigolion.<br><br>Dau o’r prif flaenoriaethau ar gyfer 2020-21 i SCHTh oedd ymgysylltu â dioddefwyr drwy ddatblygu fforwm Dioddefwyr, ac yn ail, Pobl Ifainc, drwy Fforwm Ieuenctid SCHTh.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae SCHTh wedi cynnal Grwpiau Ffocws gydag aelodau’r Fforwm Ieuenctid er mwyn nodi ymagwedd tuag at ymateb i rai o ganfyddiadau allweddol adroddiad HAFAN Cymru ar farn pobl ifainc am Blismona, Trosedd a Lles yn ardal Dyfed-Powys.<br><br>Yr ydym wedi recriwtio aelodau ychwanegol i’r Fforwm Ieuenctid er mwyn sicrhau bod y Fforwm yn gynrychioladol o’n cymuned. Y mae | Nid yw’r Blodyn Haul Anableddau Cudd yn rhoi hawl i unrhyw beth i unrhyw un heblaw dangos bod gennych anabledd cudd ac y gallai fod angen cymorth neu ychydig mwy o amser arnoch. NID yw’n rhoi hawl ichi gael eich rhoi ar y trywydd cyflym na chael unrhyw fudd arall.<br><br>Disgwylir i bob swyddog ac aelod staff wylio fideos byr er mwyn deall yn well sut i gefnogi pobl sy’n gwisgo eitem blodyn haul.<br><br>Bydd bathodynnau a chardiau adnabod ar gael yn ein holl orsafoedd agored, neu fe all y Rhwydwaith Cymorth Gallu eu darparu.<br><br>Gellir defnyddio'r rhain ar gyfer aelodau o’r cyhoedd neu swyddogion a staff.<br><br>**Pegasus**<br>Deallwn y gall y penderfyniad i gael gwared ar y cynllun Pegasus fod yn siomedig, ond gobeithiwn y bydd y dulliau eraill sydd gennym mewn grym yn awr yn caniatáu llwyfan gwell a llyfnach i gyfathrebu â’r Heddlu.<br><br>Gellir cysylltu â Heddlu Dyfed-Powys drwy’r | dilyn diwrnod ymgynefino ym Mhencadlys yr Heddlu ym mis Hydref 2022, lansiodd y Fforwm Ieuenctid ymgynghoriad o’r enw *Y Sgwrs* ar y tri maes blaenoriaeth, i gael gwybod mwy gan bobl ifainc am eu profiadau o’r meysydd blaenoriaeth. Bydd y canlyniadau o’r ymgynghoriad yn cael eu rhannu â’r Prif Gwnstabl a gwneuthurwyr penderfyniadau o gynghorau lleol a sefydliadau ieuenctid mewn Cynhadledd Ieuenctid yn ddiweddarach eleni.<br><br>**Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr**<br><br>Eleni, yr ydym wedi diweddaru Cylch Gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr fel ein bod ni’n medru casglu a dal data a gwybodaeth ychwanegol am aelodau. Yn benodol, gwybodaeth am y trosedd(au) maen nhw wedi dioddef, a demograffeg megis oed, ethnigrwydd ac ati. Bydd hyn yn caniatáu ymgysylltu mwy targedig o ran math o drosedd, ac yn ein galluogi i asesu pa un ai a yw adborth drwy |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gennym 13 Llysgennad Ifanc yn awr o bob cwr o'r ardal Heddlu sy'n aelodau o Fforwm Ieuenctid CHTh.<br><br>Yr ydym wedi sefydlu Gweithgor Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifainc yn ardal Dyfed-Powys. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cyngor ac adborth i SCHTh ar weithgareddau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifainc a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu.<br><br>Cynhaliodd CHTh Weminar Troseddau Casineb ym mis Hydref 2020 gyda phartneriaid, Cyngor Hil Cymru, a Chymorth i Ddioddefwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch Troseddau Casineb. Ein bwriad yw gweithio gyda'r Fforwm Ieuenctid er mwyn nodi a threfnu digwyddiadau pellach sy'n canolbwyntio ar ieuenctid.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Fforwm Ieuenctid yn gweithio gyda chwmni cyfryngau Optimwm, sydd wedi'i gomisiynu gan SCHTh i ddatblygu | dulliau canlynol:<br>• Ffôn : 101 a 999<br>• Hafan Unigol Ar-lein: Gwefan newydd yr Heddlu<br>• Desg Ddigidol : Facebook, Twitter, E-bost<br>• Ymweliadau â gorsafoedd<br>• Arwyddo Byw<br>• Gwasanaeth Negeseuon Testun<br><br>Fel y gwelwch o'r dewisiadau uchod, yr ydym o hyd yn ceisio gwella ein gwasanaethau, ac o'r herwydd, yr ydym wrthi'n gweithredu datrysiad rheoli cyswllt arloesol sy'n cynnwys llwyfan deleffoni newydd a Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC). Bydd y RhCC yn cofnodi'r holl gysylltiad blaenorol rhwng unigolyn a'r sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn ag unrhyw wendidau a nodwyd/datgelwyd.<br><br>**Goleudy**<br>Tynnir ein holl ddata o'r System Rheoli Cyswllt. Gan hynny, mewn theori, byddem yn medru adolygu, dadansoddi a monitro profiadau dioddefwyr Duon, Asiaidd ac Eth- nig yn | weithgarwch ymgysylltu'n gynrychioladol ai peidio.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr ydym wedi ymgysylltu ag aelodau Fforwm ar;<br><br>• brofiadau neu farn am y safleoedd tystiolaeth o bell a gynigir i ddioddefwyr yn ystod ymchwiliadau;<br>• y profiad o fod yn ddioddefwr stelcio ac aflonyddu a'r prosesau sydd mewn grym gan HDP i reoli'r troseddwyr, megis gorchmynion sifil;<br>• Ymgyrch Soteria Bluestone, yn gofyn am adborth gan oroeswyr ymosodiadau rhywiol/trais ar eu profiad o'r heddlu.<br>• Gwahoddir Aelodau gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig i gwblhau arolwg ar-lein ar eu profiadau o gael mynediad/ceisio cael mynediad i'r Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Y bwriad oedd defnyddio'r canlyniadau i ddatblygu manyleb ar gyfer y cytundeb gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | fideo byr gyda phobl ifainc yn ardal Dyfed-Powys, yn rhannu eu profiadau o gysylltiad â'r heddlu. Bydd y fideo hwn yn eistedd fel adnodd o fewn cyrsiau hyfforddi'r Heddlu gydag adran Dysgu a Datblygu HDP.<br><br>Mae SCHTh hefyd yn gweithio'n agos â chydweithwyr o fewn yr Heddlu i ddatblygu Siarter Hawliau Plant, ac yn datblygu'r Siarter mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.<br>Mae SCHTh hefyd yn gweithio tuag at gyflawni Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol Plant yng Nghymru.<br><br>**Cwynion**: Mae pob cwyn y mae SCHTh yn ei derbyn yn cael ei chofnodi a'i chategoreiddio ac adroddir ar y data hwn yn chwarterol. Yn ogystal, mae SCHTh yn cadw cofnod o unrhyw gwynion penodol sy'n ymwneud â mynediad i'r Heddlu er mwyn gwneud cwyn e.e. diffyg ymateb gan y gwasanaeth 101 ac ati. (24 Mehefin 2020 | dilyn eu holiaduron gadael. Fodd bynnag, er mwyn echdynnu data o'r fath, byddai angen estyniad pellach o fewn ein set data PowerBI. Yn sicr, mae hyn yn fwlch ac mae cais wedi'i gyflwyno i'r Tîm Perfformiad a Galw i gychwyn cipio data o'r fath cyn gynted â phosibl wrth symud ymlaen.<br><br>Mae Goleudy'n parhau i gyfathrebu llawer ag amrediad eang o gymunedau amrywiol, a dros y 12 mis diwethaf, mae Goleudy wedi adeiladu a chynnal perthnasau gwaith cryf gyda BAWSO mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern a Cham-drin Domestig ac ati.<br>Heblaw hyn, mae hyfforddiant wedi'i drefnu hefyd ar gyfer staff Goleudy.<br>Byddant yn ymgymryd â'r canlynol dros y ddeufis nesaf:-<br>• Cam-drin ar sail anrhydedd,<br>• Anffurfio Organau Rhywiol Benywod,<br>• Priodasau dan Orfod<br>• Amrywiaeth Diwylliannol ac Arferion Niweidio | ar Drais Domestig newydd ledled yr heddlu.<br>• Gwahoddwyd Aelodau i weithdy Zoom ar-lein a gynhaliwyd gan HDP i drafod gwasanaethau'r heddlu ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol.<br>• Gwahoddwyd yr Aelodau i adolygu Cynllun Cyflenwi drafft HDP a mynychu fforwm ar-lein i fynegi eu barn yn uniongyrchol wrth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.<br>• Gwahoddir mynegiannau o ddiddordeb gan aelodau o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr i eistedd ar Fwrdd Cynghori ar Gomisiynu CHTh.<br><br>**Gwasanaethau a gomisiynir**<br><br>Mae ein proses gaffael agored yn cynnwys craffu ar ymagweddau cynigwyr posibl tuag at amrywiaeth a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n cynnwys cwestiwn ar hygyrchedd gwasanaethau, gan gynnwys iaith, daearyddiaeth, anableddau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | - 11 Mawrth 2021:mae 26 o eitemau wedi'u cofnodi.)<br><br>Mae cofnodi'n seiliedig ar unigolion sydd wedi ceisio cysylltu â'r Adran Safonau Proffesiynol neu 101 i wneud cwyn ond wedi methu â chysylltu neu heb dderbyn ymateb unwaith y mae'r g ŵyn wedi'i gwneud. Ni nodwyd unrhyw destunau pryder.<br><br>**Cynlluniau Gwirfoddoli**<br>Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd dri chynllun gwirfoddol sy'n chwarae rhan bwysig wrth helpu i gyflawni'r weledigaeth a nodir yng nghynllun yr Heddlu a Throsedd.<br><br>Cynllun Ymweld â Dalfeydd Annibynnol: Mae Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (ICVs) yn ymweld ag ystafelloedd dalfa ar draws ardal Dyfed- Powys. Maent yn darparu gwiriad annibynnol ar les carcharorion yn y ddalfa, a'r amodau y maent yn cael eu cadw ynddynt. Mae gwaith 'ICVs' yn cynnig amddiffyniad i garcharorion a thryloywder prosesau | **Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol**<br>Mae SCHTh dal yn monitro pwy yr ydym yn ymgysylltu â nhw yn ystod y flwyddyn, drwy'r system Correetracker. Fodd bynnag, nid yw'r system yn cipio demograffeg unigolion.<br><br>Yr ydym yn cynnal diwrnodau ymgysylltu misol ar gyfer CHTh ac yn trefnu ei fod yn ymweld ag ardaloedd penodol yn ardal Dyfed-Powys i gwrdd â chynrychiolwyr cymuned, elusennau a sefydliadau amrywiol i roi cyfle iddynt fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae cyfyngiadau COVID- 19 wedi parhau i aflonyddu ar ein hymagwedd tuag at ddiwrnodau ymgysylltu cymunedol yn ystod 2021/22, fodd bynnag, pan oedd angen, symudom i drefnu cyfarfodydd ymgysylltu ar-lein er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i roi cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â ni, a'n bod ni'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.<br><br>**Ymgysylltu â Phobl Ifainc**<br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae SCHTh | corfforol ac anableddau eraill. Mae ymatebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu sgorio fel rhan o'r broses werthuso. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cadw. Mae materion a godir gan ICVs yn cael eu hystyried gan arolygwyr heddlu a darperir diweddariadau i'r CHTh.<br><br>**Panel Sicrwydd Ansawdd:**<br>Gofynnir i'r Panel graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys. Bydd y Panel yn canolbwyntio eu craffu ar brosesau trin cwynion, ond gofynnir iddo hefyd graffu ar feysydd eraill o gyswllt yr Heddlu â'r cyhoedd, er enghraifft, yr heddlu'n delio â galwadau i mewn i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu hy galwadau 101 a 999. Mae materion a godwyd gan y Panel yn cael eu hystyried gan Heddlu Dyfed-Powys a darperir diweddariadau i'r CHTh. Gwneir gwelliannau i arferion busnes a gwasanaeth cwsmeriaid yn ôl yr angen. Mae ymdrechion yn parhau i gynyddu amrywiaeth ein grwpiau gwirfoddol. | wedi gweithio gyda'i Fforwm Ieuenctid i ddatblygu fideo byr gyda phobl ifainc yn ardal Dyfed- Powys yn rhannu eu profiadau o gysylltiad â'r Heddlu, yn gadarnhaol ac yn negyddol.<br>Comisiynwyd cwmni cyfryngau gan SCHTh i weithio gyda'r Fforwm Ieuenctid i greu'r fideo. Cwblhawyd y gwaith ym mis Gorffennaf 2021, pan gynhaliodd aelodau'r Fforwm Ieuenctid gyfarfod gyda staff adran Dysgu a Datblygu HDP i gyflwyno'r adnodd iddynt. Mae'r fideo nawr yn gorwedd fel adnodd dysgu o fewn hyfforddiant yr Heddlu gyda'r adran Dysgu a Datblygu.<br><br>Mae gwaith y Fforwm Ieuenctid ar yr adnodd hwn wedi'i gydnabod fel enghraifft o arfer da gan y Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru.<br>Gweithiodd SCHTh yn agos gyda HDP ar ei Siarter Hawliau Plant sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Lansiwyd y Siarter ym mis Medi 2021.<br><br>**Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr**<br><br>Mae Cronfa Ddata Dioddefwyr yn eistedd ochr yn ochr â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr. Mae pob unigolyn ar ein cronfa ddata (90 ar hyn o bryd) wedi'i effeithio gan drosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae pawb wedi cytuno i ymuno â'r Fforwm er mwyn cael gwybod am gyfleoedd ymgysylltu sy'n gysylltiedig â gwasanaethau dioddefwyr, â'r nod o'u gwella.<br><br>Pan sefydlwyd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, penderfynom beidio â chasglu'r data demograffeg ar gyfer yr aelodau Fforwm, ac nid yw'r safiad hwn wedi newid hyd yn hyn. Pan mae aelodau newydd yn ymuno, yr ydym ond yn cofnodi eu manylion cyswllt.<br><br>Mae hyn i'n galluogi i roi'r grym iddynt ddweud eu dweud am wasanaethau dioddefwyr. Maen nhw'n penderfynu, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwn, pa un ai a | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | oes ganddynt adborth maen nhw eisiau rhannu a pha un ai a ydynt yn dymuno cymryd rhan yn y cyfle ymgysylltu penodol hwnnw.<br><br>O dan ddeddfwriaeth diogelu data, ni fyddwn yn dal data nad oes angen arnom. Nid oes angen inni wybod nodweddion gwarchodedig dioddefwyr i roi gwybod iddynt am ein cyfleoedd ymgysylltu.<br><br>Nid ydym yn ymgymryd ag ymgysylltu targedig. Os oes angen dadansoddi ar sail nodweddion gwarchodedig ar gyfer darn o ymgysylltu penodol, nodir hyn cyn cysylltu â'r rhai ar ein cronfa ddata, a gellir ychwanegu cwestiwn sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, gan y bydd rheswm dros gasglu'r wybodaeth benodol honno.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae SCHTh wedi gweithio gydag aelodau o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr i ddatblygu fideo byr gyda dioddefwyr a goroeswyr, yn portreadu eu profiadau o gyswllt | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | heddlu. Mae'r fideo'n edrych ar y cadarnhaol a'r negyddol, a sut yr effeithiodd y cysylltiad hwnnw ar eu hyder yn yr heddlu, a'u rhyngweithio â nhw.<br><br>Cynhaliwyd y cyfweliadau yn Gymraeg a Saesneg; yr iaith yr oedd y dioddefydd/goroeswr fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae fideo gwbl ddwyieithog wedi'i rannu â'r Adran Dysgu a Datblygu a bydd yn cael ei ddefnyddio fel adnodd o fewn eu pecyn hyfforddi.<br><br>**Y Cynllun Heddlu a Throseddu**<br>Un o gyfrifoldebau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cyhoeddi cynllun heddlu a throseddu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl cychwyn ei swydd ac o fewn y flwyddyn ariannol y cafodd ei ethol. Cyhoeddwyd y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd ym mis Rhagfyr 2021 yn dilyn etholiad CHTh ym mis Mai 2021. Wrth ffurfio'r cynllun, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda phreswylwyr ardal Dyfed-Powys i ddeall eu barn, sy'n sicrhau bod y | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cyhoedd a rhanddeiliaid lleol yn llunio'r cynllun.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliodd SCHTh sawl grŵp ffocws gyda grwpiau amrywiol o fewn ein cymunedau er mwyn sicrhau bod barn ein cymunedau amrywiol yn cael eu hystyried wrth ffurfio'r cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau crefyddol, grwpiau LHDT+ a grwpiau eraill yr ystyrir eu bod yn anoddach i'w cyrraedd o fewn ein cymunedau.<br><br>**Teimladau o ddiogelwch ledled ardal Dyfed-Powys**<br>Â thrais yn erbyn menywod a merched ar flaen trafodaethau cenedlaethol a sylw yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, roedd hi'n bwysig fod CHTh yn ystyried ac yn asesu'r sefyllfa leol. Yr oeddem eisiau holi'r cwestiwn, a yw menywod a merched yn teimlo'n anniogel yn anghymesur ar draws yr ardal Heddlu? Ym mis Rhagfyr 2021, lansiodd CHTh ymgynghoriad cyhoeddus i asesu teimladau cyffredinol o ddiogelwch yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Sir Benfro a Phowys. Bydd y wybodaeth a geir drwy'r ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i nodi unrhyw destun pryder yn lleol o ran teimladau o ddiogelwch, yn arbennig o fewn ein poblogaeth fenywaidd. Bydd yr ymgynghoriad yn caniatáu ar gyfer nodi lleoliadau penodol lle mae preswylwyr yn teimlo'n anniogel, yn ogystal â sut y gellid gwella teimladau o ddiogelwch.<br><br>Er mwyn hysbysu preswylwyr am ymgynghoriad CHTh, a chyrraedd cymaint â phosibl, hyrwyddom a rhannom yr arolwg drwy amryw o ddulliau: Er enghraifft, drwy ddatganiadau i'r wasg, negeseuon cyfryngau cymdeithasol cyffredinol, negeseuon cyfryngau cymdeithasol targedig ar gyfer y boblogaeth iau, drwy bartneriaid, ac, yn bwysig iawn, ar draws y rhwydwaith a ddatblygwyd drwy'r ymgynghoriad Cynllun Heddlu a Throseddu y sonnir amdano uchod.<br><br>. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Sicrhau ein bod ni'n adnabod materion sy'n ymwneud â chydlyniad cymunedol ac yn ymateb iddynt yn effeithiol, gyda golwg ar leihau nifer y troseddau a digwyddiadau casineb sy'n cael eu cyflawni yn ein hardal Heddlu | • Gweithio'n agos â Chydlynydd Cydlyniad Cymunedol penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ein hardal Heddlu er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio i gynyddu cydlyniad;<br>• Sicrhau bod y prosesau sydd mewn grym gan yr Heddlu ar gyfer monitro Cydlyniad Cymunedol yn addas ar gyfer y diben, a bod camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn ymateb i unrhyw densiynau a nodwyd; a<br>• Chyflawni gwaith ataliol ar gyfer mynd i'r afael â'r ymddygiadau sy'n arwain at Droseddau a Digwyddiadau Casineb yn cael eu cyflawni yn ein cymunedau | • Byddwn ni'n monitro nifer y digwyddiadau a throseddau casineb sy'n cael eu cofnodi gan yr Heddlu, yn arbennig nifer yr achosion mynych;<br>• Byddwn ni'n monitro bodlonrwydd dioddefwyr er<br>• mwyn deall unrhyw wahaniaeth ymysg pobl sydd â nodweddion gwahanol a ddiogelir, ac ymateb iddo; a<br>• Byddwn ni'n hap samplu Troseddau a Digwyddiadau Casineb drwy Banel Sicrhau Ansawdd SCHTh er mwyn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu trin yn briodol. | **Troseddau Casineb Cymru Gyfan -** Yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud cyntaf mewn perthynas â'r haint COVID-19 yn 2020, crëwyd cyfarfod Troseddau Casineb Cymru Gyfan. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn unwaith yr wythnos. Nod y cyfarfod oedd monitro a thrafod tensiynau mewn cymunedau oherwydd y cyfyngiadau symud, a thrafod datrysiadau cydweithredol.<br><br>Mae arweinydd yr heddlu ar gyfer Troseddau Casineb yn eistedd ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru Gyfan, sy'n cyfarfod bob chwarter.<br><br>Mae'r grŵp yn ceisio cynghori Gweinidogion Cymru a gwneuthurwyr polisi ynghylch mynd i'r afael â throseddau casineb, ac mewn perthynas â newidiadau o ran adrodd am droseddau casineb a | **Troseddau Casineb Cymru Gyfan** - Mae arweinydd yr heddlu ar gyfer Troseddau Casineb yn eistedd ar Fwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru, sy'n cwrdd bob chwarter. Mae'r grŵp yn monitro casineb a thensiynau cymunedol ar draws heddluoedd Cymru ac yn ceisio cynghori Gweinidogion Cymru a gwneuthurwyr polisi yn unol â hynny.<br><br>Y mae hefyd yn ceisio monitro cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflenwi Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru, cynnal trafodaethau rheolaidd ar dueddiadau trosedd presennol ledled Cymru a rhannu arfer gorau drwy archwilio astudiaethau achos.<br><br>**Gweithgor Troseddau Casineb** - Mae arweinydd yr heddlu ar gyfer Troseddau Casineb yn cadeirio'r cyfarfod hwn ar sail chwarterol. Ei ddiben yw monitro casineb ledled yr heddlu er mwyn deall y dull gorau o ymateb, a sut i | Tynnir sylw at bob digwyddiad neu drosedd casineb a gofnodir i graffu arnynt mewn Cyfarfodydd Rheoli Dyddiol ym mhob ardal blismona leol.<br><br>Mae hyn yn galluogi uwch reolwyr i wirio pa un ai a yw'r weithdrefn bresennol o gwmpas asesu a graddio risg wedi'i dilyn a bod Swyddog Cymorth Troseddau Casineb wedi'i bennu a'i dasgio.<br><br>Mae gan bob Ardal Blismona Leol Arweinydd Troseddau Casineb ar reng Arolygydd sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth tymor hirach o Droseddau Casineb yn eu hardal. Maent yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol sy'n canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Tueddiadau<br>• Ailadroddiadau<br>• Tensiynau Cymunedol<br><br>Nhw, yn eu tro, sy'n gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion a nodir. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hyfforddiant yn y maes ar draws asiantaethau yng Nghymru.<br><br>Y mae hefyd yn ceisio monitro cynnydd yn erbyn Cynllun Cyflenwi Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru, cynnal trafodaethau rheolaidd ar dueddiadau presennol o ran troseddau casineb yng Nghymru, a rhannu arfer gorau drwy archwilio astudiaethau achos.<br><br>Adolygiad y Swyddog Cyswllt LHDT - Cynhaliodd yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth adolygiad o effeithiolrwydd Swyddogion Cyswllt LHDT yr Heddlu, a chynnig argymhellion. Cyn y gellid gwneud penderfyniad o ran pa un ai a ddylem gynnal carfannau hyfforddi pellach, roedd angen tystiolaeth eu bod yn effeithiol a gwerth chweil. Yn anffodus, nid oedd y dystiolaeth honno ar gael yn hawdd. Mae'r adolygiad yn cynnig argymhellion a fydd yn sicrhau'r | sicrhau bod ymateb yr heddlu i droseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb yn gadarn ac effeithiol. Mae rhanddeiliaid perthnasol o fewn yr heddlu'n rhan o'r grŵp, yn ogystal ag arweinwyr cydlyniant cymunedol, Cymorth i Ddioddefwyr, ac ers diwedd 2021, GEG.<br><br>Mae system yr heddlu o asesu risg troseddau casineb a rheoli risg, a ddatblygwyd ar y cyd ag academyddion blaenllaw, yn awr wedi ymwreiddio'n dda ac yn cael yr effaith ddymunol o ran sicrhau bod yr ymateb i droseddau casineb wedi'i deilwra i anghenion y dioddefydd a'r peryglon sy'n amlwg. Mae'n sicrhau bod pob achos o gasineb yn cael ei asesu'n gywir ar gyfer unrhyw risg, niwed neu fygythiad amlwg a bod ymateb yr heddlu yn gymesur â materion a nodwyd.<br><br>Mae trefn archwilio a SA casineb yr heddlu wedi ymwreiddio'n dda; mae pwynt cyswllt sengl lefel arolygydd ym mhob un o'r ardaloedd plismona lleol dal yn gyfrifol am | Mae arweinydd yr heddlu ar gyfer Troseddau Casineb ar lefel Prif Arolygydd. Ef/hi sy'n cadeirio grŵp Troseddau Casineb chwarterol yr heddlu lle mae data perthnasol o gwmpas Troseddau Casineb o bob ardal blismona leol yn destun craffu a thrafod.<br><br>Mae arweinydd yr heddlu hefyd yn gyfrifol am geisio'r wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau cenedlaethol, tueddiadau ar draws yr heddlu, newidiadau i bolisïau, a sicrhau bod Troseddau Casineb yn parhau'n ffocws ar gyfer gweithgarwch plismona.<br><br>Yn 2022/23, bu llawer o drafod yn genedlaethol am y cydbwysedd o gwmpas plismona digwyddiadau y canfyddir eu bod wedi'u hysgogi gan gasineb, ond sydd ddim yn cael eu hystyried yn droseddau. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n genedlaethol er mwyn ffurfio canllawiau i swyddogion ar sut i blismona/ymateb i'r newidiadau hyn ond sicrhau bod y rhai sydd wedi'u heffeithio gan gasineb yn parhau i gael cymorth |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dystiolaeth honno. Dim ond bryd hynny<br><br>y byddwn ni'n medru gofyn pa un ai a ddylem gael mwy o swyddogion y mgysylltu. Yn ddiweddar,<br><br>mae'r Grŵp Cofleidio Amrywiaeth wedi cymeradwyo'r argymhellion<br><br>ac mae gwaith wedi dechrau ar sicrhau eu bod nhw'n cael eu datblygu.<br><br>**Gweithgor Troseddau Casineb** - mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter â'r diben o oruchwylio, cefnogi a gwella ymateb yr heddlu i droseddau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb. Mae rhanddeiliaid perthnasol o fewn yr heddlu'n bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp, ynghyd ag arweinwyr cydlyniant cymunedol a Chymorth i Ddioddefwyr.<br><br>Mae arweinydd yr heddlu wedi datblygu system newydd o asesu risg troseddau casineb a rheoli risg ar y cyd ag academyddion blaenllaw.<br><br>Mae'n sicrhau bod pob | adolygu 5 trosedd casineb a ddewisir ar hap bob mis. Nodir materion sy'n amlwg mewn ardal blismona leol gan yr arolygydd, lle mae materion ar draws yr heddlu'n cael eu nodi gan yr arweinydd portffolio sy'n gyfrifol am gipio a gweithredu ar unrhyw ddysgu, a chodi'r materion yn y Gweithgor Troseddau Casineb.<br><br>Mae pob trosedd yr adroddir amdano'n cael ei archwilio gan y Tîm Archwilio Troseddau er mwyn sicrhau bod materion unplygrwydd data trosedd yn cael eu trin ac nad oes unrhyw drosedd cudd yn mynd heb ei gofnodi.<br><br>**Troseddau Casineb** Ar ôl llwyddo i dderbyn arian gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, comisiynwyd 'Mewn Cymeriad', cwmni theatr mewn addysg, i weithio gyda thîm SchoolBeat HDP i gynhyrchu cynhyrchiad theatr un dyn i fynd ar daith o gwmpas ysgolion uwchradd yn ardal Dyfed-Powys i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ymysg | perthnasol gyda chamau gweithredu'n cael eu cymryd i gyfyngu dwysáu.<br><br>Mae arweinydd Dyfed-Powys ar gyfer Troseddau Casineb yn eistedd yn ei dro ar Grŵp Troseddau Casineb Cymru Gyfan chwarterol, lle mae tueddiadau cenedlaethol yn cael eu trafod ac arfer da'n cael ei rannu.<br><br>Un arfer o'r fath yw panel craffu sy'n cael ei gadeirio gan Wasanaeth Erlyn y Goron lle mae pob heddlu'n cyflwyno cais i'w drafod fel bod pob heddlu'n medru dysgu o bob ardal blismona am sut i wella canlyniadau cyfiawnder troseddol ar gyfer y dioddefwyr casineb hynny yn ardal Dyfed-Powys.<br><br>Trafodir Cydlyniant Cymunedol bob wythnos ym mhob ardal blismona leol ac mae'n un ôl rolau allweddol timoedd Plismona Bro. Maen nhw'n gweithio'n agos â'r timoedd cydlyniant cymunedol awdurdod lleol hynny i nodi tueddiadau a meysydd sy'n destun pryder, |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | achos o gasineb yn cael ei asesu'n briodol ar gyfer unrhyw risg, niwed neu fygythiad amlwg, a bod ymateb yr heddlu'n gymesur â'r materion a nodwyd.<br><br>Mae trefn sicrhau ansawdd ac archwilio mewn grym ac<br><br>mae pwynt cyswllt sengl lefel arolygydd ym mhob un o'r unedau rheoli sylfaenol yn gyfrifol am adolygu pum trosedd casineb a ddewisir ar hap bob mis. Mae'r arweinydd troseddau casineb yn goruchwylio'r archwiliad ar gyfer unrhyw ddysgu.<br><br>Heblaw hynny, mae troseddau casineb yn destun archwiliad 100% gan y Tîm Archwilio Troseddau er mwyn sicrhau bod materion unplygrwydd data trosedd yn cael eu trin a bod pob trosedd gudd yn cael ei chofnodi.<br><br>**SCHTh** - Ffocws blynyddol ar y Bwrdd Plismona er mwyn craffu ar lefelau TC a gweithgarwch cysylltiedig.<br><br>Mae Cronfa Ddata | disgyblion blwyddyn 8. Teithiodd y ddrama o gwmpas ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, a chynhaliwyd gweithdai yn yr ysgolion yn dilyn y cynyrchiadau, lle'r ymgysylltodd swyddogion SchoolBeat â'r plant er mwyn trafod unrhyw faterion troseddau casineb lleol. | ac yn rhoi mesurau priodol mewn grym, megis ymateb yn gadarn a gweithredu mesurau lliniaru er mwyn atal dwysáu.<br><br>Tynnir sylw at unrhyw faterion yr ystyrir bod ganddyn nhw'r potensial i ddwysáu'n ffurfiol mewn arf monitro Tensiynau Cymunedol a ddefnyddir i sicrhau monitro parhaus a mesurau ar gyfer lleddfu a lleihau tensiwn.<br><br>Mae enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys monitro unrhyw densiwn sy'n gysylltiedig ag ail-gartrefu ceiswyr lloches a'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin sy'n cael eu hadleoli dros dro yn y cymunedau lleol.<br><br>Mae swyddogion heddlu lleol yn gweithio'n agos â'r timoedd hyn mewn mentrau i wella cydlyniant o fewn y gymuned. Mae enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys sesiynau o gwmpas atal graffiti sy'n medru cynnwys elfennau o gasineb. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dioddefwyr yn eistedd ochr yn ochr â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr. Mae pob unigolyn ar ein cronfa ddata wedi'i effeithio gan drosedd/ymddygiad gwrthgymdeithasol (75 ar hyn o bryd), ac mae pob un ohonynt wedi cytuno i gael gwybod am gyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at wella gwasanaethau dioddefwyr. Nid ydym wedi casglu data demograffeg ar gyfer yr unigolion hyn, dim ond manylion cyswllt i'n galluogi i roi'r grym iddynt ddweud eu dweud am wasanaethau dioddefwyr. O dan ddeddfwriaeth diogelu data, ni fyddwn yn dal data nad oes ei angen arnom. Nid oes angen inni wybod nodweddion gwarchodedig dioddefwyr i'w hysbysu am gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu.<br><br>Nhw sy'n penderfynu, yn seiliedig ar y wybodaeth yr ydym yn darparu, pa un ai a oes ganddynt adborth y maent yn dymuno rhannu ai peidio. Ni fydd pob pwnc ymgysylltu'n berthnasol i bawb ar ein cronfa ddata. | | Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, cynorthwyodd Heddlu Dyfed-Powys y Timoedd Cydlyniant Cymunedol, Cymorth i Ddioddefwyr a SCHTh ar nifer o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am Droseddau Casineb, gan gynnwys digwyddiadau allweddol yng ngemau pêl droed Uwch-gynghrair proffil uwch Cymru.<br><br>**SCHTh**<br><br>I gyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ym mis Hydref 2022, gwahoddodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), fyfyrwyr prifysgol a chynghorwyr lleol i gyfarfod o Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu ym Mhrifysgol Aberystwyth, Ceredigion. Canolbwyntiodd cyfarfod y Bwrdd ar y camau y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu cymryd i fynd i'r afael â throseddau casineb, ac roedd yn gyfle i'r cyhoedd holi cwestiynau penodol i'r Prif Gwnstabl a'r CHTh mewn perthynas â throseddau casineb yn ardal Dyfed-Powys.<br><br>Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Nid ydym yn ymgymryd ag ymgysylltu targedig. Os oes angen dadansoddi ymgysylltiad penodol yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig, nodir hyn cyn cysylltu â'r bobl yn ein cronfa ddata, a gellir ychwanegu cwestiwn sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig, gan y bydd gennym reswm penodol dros gasglu'r wybodaeth benodol honno.<br><br>Gweler ddolen i gofnodion y<br><br>PSA isod : Panel Sicrhau Ansawdd (dyfed-powyspcc.org.uk)<br><br>**Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu** - Lansiodd Cyngor Cenedlaethol Prif<br><br>Swyddogion yr Heddlu ei Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn 2018. O ganlyniad i'r strategaeth, gwasgarwyd materion y mae angen eu gwella | | Casineb ym mis Hydref, gweithiodd SCHTh gydag Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o effaith troseddau casineb, mewn sesiynau pêl droed *Kicks* Uwch-gynghrair y mae CHTh wedi'u hariannu ar gyfer pobl ifainc ledled ein hardal heddlu. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymysg grwpiau gwahanol o fewn yr heddlu ac maen nhw'n cael eu llywodraethu gan y Grŵp Cofleidio Amrywiaeth. Yr ydym wedi'n dewis i ffurfio rhan o Adolygiad Cymheiriaid a gynhelir gan y Coleg Plismona ar ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad.<br><br>Mae'r adolygiad cymheiriaid yn canolbwyntio ar wahanol agweddau, ond un ohonynt yw'r ffordd yr ydym yn denu, cadw a datblygu ein staff.<br><br><br>**Dyletswydd Cydraddoldeb**<br><br>**y Sector Cyhoeddus (DCSC)**<br><br>Ceir hyd i wybodaeth gyfredol DCSC yr heddlu ar wefan allanol yr Heddlu.<br><br>Cyhoeddir y wybodaeth hon yn flynyddol, ac mae'n hollbwysig o ran sicrhau ein bod ni'n ymwybodol o wneuthuriad ein sefydliad. Yn ddiweddar, cysylltwyd â'n gweithlu i'w hannog i ddatgan eu gwybodaeth amrywiaeth | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bersonol. Ar hyn o bryd, mae SCHTh yn cyhoeddi ffigurau amrywiaeth ei staff ar ei gwefan. Ar gyfer y flwyddyn 2021/22, bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn ymgysylltu â Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Heddlu er mwyn nodi unrhyw bosibiliadau ar gyfer adrodd ychwanegol ar y data hwn. | | |